# Proffil y Gymraeg Abertawe: Awst 2024

**Cyflwyniad**

- Mae'r proffil hwn yn cyflwyno'r ystadegau a'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar sgiliau'r Gymraeg yn Ninas a Sir Abertawe, sut mae wedi newid yn y blynyddoedd diweddar ac amrywiadau yn ôl ardal ac oedran lleol.
- Y ffynhonnell o wybodaeth ystadegol allweddol ar gyfer y Gymraeg yw'r Cyfrifiad cenedlaethol a gynhelir bob deng mlynedd - a gynhaliwyd diwethaf yng Nghymru a Lloegr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ym mis Mawrth 2021. Cyhoeddir ystadegau'r cyfrifiad gan y SYG ar gyfer ardaloedd lleol yng Nghymru ar nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg a phobl 3 oed ac yn hŷn a chanddynt sgiliau iaith Gymraeg, ochr yn ochr ag ystod o allbynnau 'amlamryweb' (h.y. croesdablu â nodweddion poblogaeth neu aelwydydd eraill).
- Yng Nghyfrifiad 2021, gofynnwyd y cwestiwn 'A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?' - ac roedd modd ateb drwy dicio un neu ragor o bum blwch (un i bob categori ac un ar gyfer 'Dim un o'r rhain') mewn unrhyw gyfuniad. Dim ond yng Nghymru y gofynnwyd y cwestiwn hwn. Nid yw'r cyfrifiad yn casglu gwybodaeth am ba mor aml mae pobl yn siarad Cymraeg, na pha mor dda y maent yn siarad yr iaith.

**Ystadegau allweddol y Cyfrifiad**

- Yng Nghyfrifiad 2021, roedd tua 26,000 o bobl yn Ninas a Sir Abertawe (11.2% o'r holl bobl 3 oed ac yn hŷn) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n is na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru (17.8% neu 538,300 o bobl).
- Yn 2021, roedd gan tua 42,500 o bobl 3 oed ac yn hŷn yn Abertawe (18.3%) ryw gyfuniad o sgiliau iaith Gymraeg, gan gynnwys deall, siarad, darllen neu ysgrifennu - unwaith eto'n is na'r cyfartaledd i Gymru (25.2%).
- Yn Abertawe, nid oedd tua 205,900 neu 88.8% o bobl 3 oed ac yn hŷn yn gallu siarad Cymraeg (Cymru - 82.2%), ac nid oedd gan 189,400 (81.7%) unrhyw sgiliau yn y Gymraeg (Cymru - 74.8%).
- Mae Tabl 1 yn cyflwyno crynodeb o sgiliau iaith Gymraeg yn Abertawe a Chymru yn ôl categori o'r Cyfrifiad diweddaraf.

**Tabl 1:** Poblogaeth yn ôl sgiliau iaith Gymraeg, Cyfrifiad 2021

| Sgiliau iaith Gymraeg: | **Abertawe** | **% o'r cyfanswm** | **% Cymru** |
|---|---|---|---|
| Dim sgiliau yn y Gymraeg | 189,400 | 81.7 | 74.8 |
| Gallu deall Cymraeg llafar | 36,149 | 15.6 | 21.9 |
| Gallu siarad Cymraeg | 25,986 | 11.2 | 17.8 |
| Gallu darllen Cymraeg | 26,801 | 11.6 | 17.3 |
| Gallu ysgrifennu Cymraeg | 21,867 | 9.4 | 15.2 |
| Gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg | 19,951 | 8.6 | 14.2 |
| *Yr holl breswylwyr arferol 3 oed ac yn hŷn* | *231,890* | *100* | *100* |

**Ffynhonnell**: Cyfrifiad 2021, Tablau TS032 i TS036, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. © Hawlfraint y Goron 2022.
Sylwer: Mae ystadegau'r Gymraeg yn dosbarthu pobl 3 oed ac yn hŷn yn ôl eu galluoedd canfyddedig yn yr iaith a rhai aelodau eraill yr aelwyd, e.e. plant.


## Gwahaniaethau yn ôl oedran

- Yn gyffredin â rhannau eraill o Gymru, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn Abertawe'n amrywio yn ôl oedran. Mae Cyfrifiad 2021 yn amcangyfrif bod 25.8% o blant 5-15 oed yn Abertawe a 17.7% o'r rhai 16-19 oed yn gallu siarad Cymraeg, sy'n uwch na'r cyfartaledd cyffredinol sef 11.2%. Bydd y ffigurau hyn yn adlewyrchu dylanwad y system addysg ar sgiliau iaith Gymraeg a'i defnydd ymhlith plant oedran ysgol. Ar yr oedran hwn, mae'n debygol y bydd rhieni'n ateb cwestiwn y Cyfrifiad ar ran eu plant.
- Fodd bynnag, mae'r cyfrannau hyn yn parhau i fod yn llawer is na chyfartaledd cyffredinol Cymru 2021 yn y grwpiau oedran hyn, sef 34.3% (ar gyfer plant 5-15 oed) a 27.5% (pobl ifanc 16-19 oed).
- Ar oedrannau hŷn, mae nifer y bobl yn Abertawe sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 20 a 44 oed yn gostwng i 9.2% ac mae'n is eto ar gyfer y rhai sy'n 45-64 oed (6.6%). Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn gwella ar gyfer grwpiau hŷn, gyda 8.1% o'r rheini sy'n 65-74 oed a 11.6% o'r bobl 75+ oed yn gallu siarad Cymraeg.

## Amrywiadau lleol

- Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod y canrannau mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn Abertawe yn byw yn wardiau Pontarddulais (25.9%), Clydach (20.1%) a Phontlliw a Thircoed (19.4%). Y wardiau gyda'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yw Townhill (5.6%), Cwmbwrla (6.6%), a'r Castell (6.8%). Mae'r map isod (Ffigur 1) yn dangos dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg yn y sir yn ôl canran.

**Ffigur 1: Dosbarthiad pobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl ward yn Abertawe, Cyfrifiad 2021**




- Mae'r map yn dangos mai ardaloedd yng ngogledd a gorllewin y sir yn gyffredinol sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, ac mae'r cyfrannau isaf yn y wardiau trefol sy'n agos at ganol y ddinas.
- O ran nifer y siaradwyr Cymraeg, mae'r nifer uchaf yn ward Llansamlet (1,916), ac yna wardiau Pontarddulais, Treforys a Sgeti (i gyd ychydig dros 1,700) - sydd mewn rhai achosion yn adlewyrchu eu poblogaeth gyffredinol fwy. Mae wyth o 32 o wardiau Abertawe'n cynnwys dros 1,000 o siaradwyr Cymraeg, ond mae dan 500 o siaradwyr mewn 15 ward.
- Mae Tabl 2 yn dangos y wardiau sydd â'r cyfrannau uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg. Mae'r wybodaeth hon ar gyfer pob un o'r 32 ward yn Abertawe ar gael yn Atodiad 1.

**Tabl 2: Siaradwyr Cymraeg yn Wardiau Abertawe yn ôl canran a rhif, Cyfrifiad 2021**

| Uchaf yn ôl % | % | Nifer | | Isaf yn ôl % | % | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pontarddulais | 25.9 | 1,730 | | Townhill | 5.6 | 466 |
| Clydach | 20.1 | 1,657 | | Cwmbwrla | 6.6 | 485 |
| Pont-lliw a Thir-coed | 19.4 | 468 | | Y Castell | 6.8 | 869 |
| Llangyfelach | 16.6 | 433 | | Glandŵr | 7.1 | 497 |
| Llwchwr | 16.0 | 1,441 | | St. Thomas | 7.2 | 484 |
| Penlle'r-gaer | 14.4 | 499 | | Penderi | 7.4 | 804 |
| Gorseinon a Phenyrheol | 13.5 | 1,395 | | Y Glannau | 8.0 | 568 |
| Llansamlet | 13.3 | 1,916 | | Bôn-y-maen | 8.0 | 286 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 Tablau TS033, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. © Hawlfraint y Goron 2022.

**Newid dros amser**

- Yn 2011, cyfanswm y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn Abertawe oedd tua 26,330, neu 11.4% o'r boblogaeth 3 oed ac yn hŷn. Felly, dros y cyfnod o ddeng mlynedd (2011-2021) bu gostyngiad o tua 350 yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir, gostyngiad o 1.3%. Mae hyn yn cymharu â chynnydd bach yng nghyfanswm poblogaeth Abertawe sy'n 3 oed ac yn hŷn o 0.3% (+730 o bobl) rhwng Cyfrifiadau. Fodd bynnag, mae hyn yn is na'r gostyngiad o 5.3% a gofnodwyd yng Nghymru dros y cyfnod o ddeng mlynedd yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Yn Abertawe, bu gostyngiad o tua 2,600 (-5.8%) ers 2011 yn nifer y bobl 3 oed ac yn hŷn a chanddynt rhyw gyfuniad o sgiliau iaith Gymraeg, sydd ychydig yn uwch na'r gostyngiad cyfatebol yng Nghymru (-5.0%).

**Newid yn ôl ardal leol**

- Mae dadansoddiad o newid dros amser yn ôl ward yn cael ei gymhlethu gan newidiadau i rai o ffiniau'r wardiau yn dilyn adolygiad diweddaraf Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Abertawe, a gafodd ei roi ar waith ar gyfer yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022. Mae allbynnau lefel ward Cyfrifiad 2021 ar sail y wardiau newydd, sy'n wahanol i wardiau 2011, felly mae angen grwpio rhai wardiau er mwyn gwneud cymhariaeth.
- O'r 24 o ardaloedd ward sydd wedi'u grwpio yn y dadansoddiad hwn, dangosodd 10 gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a chafwyd gostyngiadau mewn 14 ardal.
- Yn Abertawe cofnodwyd y cynnydd mwyaf rhwng Cyfrifiadau yn nifer y siaradwyr Cymraeg (170-180 yn fras) yn wardiau'r Mwmbwls a Sgeti. Roedd y cynnydd mwyaf o ran canran yn ward Glandŵr (+35%), er bod hyn yn is mewn termau absoliwt (+130 yn fras). Mewn mannau eraill, cofnodwyd cynnydd canrannol mwy yn bennaf mewn wardiau i'r de a'r gorllewin o ganol Abertawe.
- Dangosodd pedair ardal ostyngiadau o dros 10% rhwng Cyfrifiadau, gyda'r gostyngiad mwyaf yn ward Pen-clawdd (-20% neu 100 o bobl yn fras). Roedd gostyngiadau nodedig eraill yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn bennaf yn ardaloedd gogleddol mwy gwledig y sir, gan gynnwys ardaloedd lle cafwyd y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn hanesyddol ac sydd â'r gyfran uchaf o hyd.
- Dangosir y cynnydd a'r gostyngiadau mwyaf yng nghyfran a nifer y siaradwyr Cymraeg fesul ward rhwng 2011 a 2021 yn Nhabl 3. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer pob ward yn Atodiad 2.

**Tabl 3: Newid mewn siaradwyr Cymraeg yn Wardiau Abertawe, Cyfrifiad 2011 i 2021**

| Y cynnydd mwyaf yn ôl % | + (%) | (Nifer) | | Y gostyngiad mwyaf yn ôl | - (%) | (Nifer) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Glandŵr | +34.7 | +128 | | Pen-clawdd | -20.2 | -106 |
| Llandeilo Ferwallt | +26.5 | +71 | | Tregŵyr | -14.6 | -97 |
| Y Mwmbwls, West Cross | +22.8 | +286 | | Wardiau sirol y gogledd * | -12.1 | -589 |
| Penlle'r-gaer | +18.2 | +77 | | Treforys | -11.5 | -222 |
| Sgeti | +11.7 | +179 | | Cwmbwrla | -6.2 | -32 |
| Gorseinon a Phenyrheol | +4.4 | +59 | | Penderi | -5.4 | -46 |
| Y Cocyd, Waunarlwydd | +3.7 | +47 | | Fairwood | -4.9 | -14 |
| Y Castell, St Thomas, Y Glannau | +2.7 | +43 | | Mynydd-bach | -4.0 | -34 |

Ffynhonnell: Tablau Cyfrifiad 2011 a 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Sylwer**: * Mae 'Wardiau sirol y gogledd' yn cynrychioli swm yr ystadegau ar gyfer wardiau newydd Clydach, Llangyfelach, Pontarddulais a Phontlliw a Thircoed (hen wardiau Clydach, Llangyfelach, Mawr a Phontarddulais).

## Newid yn ôl oedran

- Mae cymariaethau uniongyrchol rhwng Cyfrifiadau yn ôl oedran hefyd yn bosib ar lefel awdurdodau lleol. Mae dadansoddiad o newid wedi'i wneud ar gyfer y grwpiau canlynol: pobl 3-4, 5-15, 16-19, 20-44, 45-64, 65-74, 75+ oed, pob oed (3+).
- Er ei bod yn garfan fach, mae nifer y plant ifanc (3-4 oed) yn Abertawe sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng rhwng 2011 a 2021, o 770 (14.6% o'r holl bobl 3-4 oed) i 530 (11.0%). Mae hyn yn ostyngiad o 240 o blant neu 31.7%, er bod dirywiad wedi'i gofnodi ym mhob un o'r 22 o ardaloedd yn yr awdurdod (cyfartaledd cyffredinol Cymru: -27.6%).
- Ar gyfer y garfan 5-15 oed (oedran ysgol craidd), mae'r darlun yn fwy sefydlog, gyda chynnydd bach yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn Abertawe, o 7,360 yn 2011 i 7,530 yn 2021 (+170 neu 2.3%). Mae hyn yn fwy calonogol na thueddiadau yng Nghymru gyfan, lle gostyngodd y nifer rhwng 5-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg 11.6% rhwng 2011 a 2021.
- Gyda phobl ifanc 16-19 oed, mae'r duedd yn fwy cadarnhaol, gyda chynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Abertawe rhwng Cyfrifiadau o 240 neu 12.8%. Ar y llaw arall, gostyngodd y ffigwr hwn ar draws Cymru 11.1%. Cofnodwyd cynnydd canrannol tebyg ar gyfer y grŵp oedran 20-44 yn Abertawe, sef +12.8% (Cymru +2.0%).
- I grwpiau oedran dros 45 oed, mae'r darlun yn Abertawe yn llai calonogol, gyda dirywiad ym mhob carfan a darlun gwaeth na chyfartaledd Cymru. Mae Tabl 4 yn dangos y newidiadau hyn ar draws pob grŵp oedran, a chymariaethau â chyfartaledd Cymru:

**Tabl 4: Siaradwyr Cymraeg yn Abertawe yn ôl grŵp oedran, newid - Cyfrifiad 2011-2021**

| **Oed**: | 3-4 | 5-15 | 16-19 | 20-44 | 45-64 | 65-74 | 75+ | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2011**: nifer | 770 | 7,360 | 1,880 | 6,280 | 4,520 | 2,610 | 2,920 | **26,330** |
| (% o'r grŵp oedran) | (14.6%) | (26.0%) | (14.0%) | (7.7%) | (7.5%) | (11.8%) | (14.1%) | **(11.4%)** |
| **2021**: nifer | 530 | 7,530 | 2,120 | 7,060 | 3,990 | 2,090 | 2,680 | **25,980** |
| (% o'r grŵp oedran) | (11.0%) | (25.8%) | (17.7%) | (9.2%) | (6.6%) | (8.1%) | (11.6%) | **(11.2%)** |
| Newid: 2011-21 | -240 | +170 | +240 | +780 | -530 | -520 | -240 | **-350** |
| %-y newid | -31.2 | +2.3 | +12.8 | +12.4 | -11.7 | -19.9 | -8.2 | **-1.3** |
| *Cymru: %-y newid* | *-27.6* | *-11.6* | *-11.1* | *+2.0* | *-0.5* | *+1.8* | *+0.0* | ***-4.2*** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 (ONS) a dadansoddiad Llywodraeth Cymru "Y Gymraeg yng Nghymru, Cyfrifiad 2021".

## Ffynonellau ystadegau a gwybodaeth pellach

- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW), yn darparu ffynhonnell o wybodaeth ystadegol ar wahân ar y Gymraeg. Mae cwmpas y cwestiynau (a ofynnwyd i bobl 16+ oed yn unig) yn wahanol i'r Cyfrifiad gan eu bod yn cynnwys arwyddion o ruglder, amlder ac agweddau eraill ar ddefnydd y Gymraeg. Arolwg ffôn yw GCC ar hyn o bryd yn seiliedig ar sampl lai o ychydig dros 11,000 o bobl yng Nghymru, sy'n cyfyngu ar y cwmpas ar gyfer allbynnau lefel awdurdodau lleol ar gyfer rhai mesurau, gyda chyfyngau hyder uchel mewn eraill.

- Daw'r data diweddaraf ar y Gymraeg o'r arolwg ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023, felly'n fwy diweddar na Chyfrifiad 2021. Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 yn dangos bod 11% o bobl Abertawe yn 'gallu siarad Cymraeg' (Cymru 18%), gyda 7% arall yn nodi 'rhywfaint o allu i siarad Cymraeg' (Cymru 16%), tra bod 82% 'ddim yn gallu siarad Cymraeg' (Cymru 66%). Mae 6% o bobl Abertawe yn ystyried eu hunain yn 'rhugl' yn y Gymraeg (yn is na chyfartaledd Cymru o 11%).

  Cyswllt gwe: www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru

- Mae Arolwg Defnydd Iaith (ADI) Llywodraeth Cymru'n ceisio gwybod pa mor aml, ble, pryd a chyda phwy y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg, a'u sgiliau a'u defnydd o'r iaith. Cynhaliwyd yr ADI diweddaraf (ar gyfer 2019-20) fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru, ar sail debyg i arolwg 2013-15. Fodd bynnag, daeth yr arolwg i ben yn gynt na'r disgwyl oherwydd y pandemig, ac nid yw data awdurdodau lleol ar gael oherwydd maint y samplau.

  Cyswllt gwe: www.llyw.cymru/arolwg-defnydd-iaith

- Ffynhonnell arall ystadegau'r Gymraeg yw Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) y SYG. Er bod amcangyfrifon yr APB o allu yn y Gymraeg yn fwy aml ac amserol (cânt eu diweddaru'n chwarterol, gan gwmpasu cyfnodau treigl o 12 mis), maent yn uwch nag amcangyfrifon y Cyfrifiad a'r Arolwg Cenedlaethol yn hanesyddol oherwydd gwahaniaethau mewn dulliau casglu data.

- Mae canlyniadau diweddaraf yr APB ar gyfer Abertawe, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023 yn awgrymu bod 47,100 o bobl (19.6% o bobl 3 oed ac yn hŷn) yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 29.2%, ond (fel ar draws Cymru) mae hyn yn sylweddol uwch na ffigyrau Cyfrifiad 2021, er bod hyn hefyd wedi bod yn wir am gyfrifiadau cynharach a data'r APB.

  Cyswllt gwe: www.llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2023

- Cyhoeddodd y SYG a LlC gynllun gwaith ar y cyd ym mis Ebrill 2023 yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella dealltwriaeth o'r prif arolwg a'r ffynonellau data gweinyddol a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau am y Gymraeg, ac i ddeall nodweddion pobl a roddodd ymatebion anghyson i'r cwestiynau Cymraeg ar draws y ffynonellau'n well. Mae rhai o ganfyddiadau cychwynnol yr ymchwil hon wedi'u cyhoeddi ers hynny.

Cyswllt gwe:
www.llyw.cymru/cynllun-gwaith-ar-y-cyd-y-swyddfa-ystadegau-gwladol-llywodraeth-cymru-ar-gydlyniad-ystadegau-ar-y-gymraeg

*I gael rhagor o wybodaeth am y Gymraeg ac ystadegau demograffig eraill yn Abertawe, cysylltwch â:*

**Cyngor Abertawe – Gwybodaeth, Ymchwil a SGD**
Ebost: ymchwil@abertawe.gov.uk

Uned Cyflwyno Strategol, Gwasanaethau Corfforaethol,
y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN.

**Atodiad 1: Siaradwyr Cymraeg yn Wardiau Abertawe yn ôl canran a rhif, Cyfrifiad 2021**

| Wardiau Abertawe wedi'u trefnu yn ôl y % sy'n gallu siarad Cymraeg | Poblogaeth 3+ oed | Yn gallu siarad Cymraeg | % | Methu â siarad Cymraeg | % |
|---|---|---|---|---|---|
| Pontarddulais | 6,672 | 1,730 | 25.9 | 4,942 | 74.1 |
| Clydach | 8,252 | 1,657 | 20.1 | 6,595 | 79.9 |
| Pont-lliw a Thir-coed | 2,415 | 468 | 19.4 | 1,947 | 80.6 |
| Llangyfelach | 2,609 | 433 | 16.6 | 2,176 | 83.4 |
| Llwchwr | 8,987 | 1,441 | 16.0 | 7,546 | 84.0 |
| Penlle'r-gaer | 3,463 | 499 | 14.4 | 2,964 | 85.6 |
| Gorseinon a Phenyrheol | 10,296 | 1,395 | 13.5 | 8,901 | 86.5 |
| Llansamlet | 14,460 | 1,916 | 13.3 | 12,544 | 86.7 |
| Mayals | 2,523 | 312 | 12.4 | 2,211 | 87.6 |
| Pen-clawdd | 3,479 | 420 | 12.1 | 3,059 | 87.9 |
| Y Mwmbwls | 7,661 | 914 | 11.9 | 6,747 | 88.1 |
| Uplands | 13,799 | 1,639 | 11.9 | 12,160 | 88.1 |
| Tregŵyr | 4,822 | 569 | 11.8 | 4,253 | 88.2 |
| Sgeti | 14,469 | 1,708 | 11.8 | 12,761 | 88.2 |
| West Cross | 5,610 | 626 | 11.2 | 4,984 | 88.8 |
| Treforys | 15,615 | 1,709 | 10.9 | 13,906 | 89.1 |
| Waunarlwydd | 3,265 | 353 | 10.8 | 2,912 | 89.2 |
| Llandeilo Ferwallt | 3,173 | 339 | 10.7 | 2,834 | 89.3 |
| Pennard | 3,076 | 321 | 10.4 | 2,755 | 89.6 |
| Fairwood | 2,724 | 273 | 10.0 | 2,451 | 90.0 |
| Gŵyr | 2,888 | 276 | 9.6 | 2,612 | 90.4 |
| Y Cocyd | 10,079 | 954 | 9.5 | 9,125 | 90.5 |
| Mynydd-bach | 8,692 | 807 | 9.3 | 7,885 | 90.7 |
| Dyfnant a Chilâ | 8,988 | 774 | 8.6 | 8,214 | 91.4 |
| Bôn-y-maen | 7,135 | 568 | 8.0 | 6,567 | 92.0 |
| Y Glannau | 3,554 | 286 | 8.0 | 3,268 | 92.0 |
| Penderi | 10,933 | 804 | 7.4 | 10,129 | 92.6 |
| St Thomas | 6,692 | 484 | 7.2 | 6,208 | 92.8 |
| Glandŵr | 7,047 | 497 | 7.1 | 6,550 | 92.9 |
| Y Castell | 12,861 | 869 | 6.8 | 11,992 | 93.2 |
| Cwmbwrla | 7,297 | 485 | 6.6 | 6,812 | 93.4 |
| Townhill | 8,360 | 466 | 5.6 | 7,894 | 94.4 |
| **Abertawe** | **231,889** | **25,986** | **11.2** | **205,903** | **88.8** |
| Cymru | 3,018,172 | 538,296 | 17.8 | 2,479,876 | 82.2 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 Tablau TS033, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. © Hawlfraint y Goron 2022.

**Atodiad 2: Newid mewn siaradwyr Cymraeg yn Wardiau Abertawe*, Cyfrifiad 2011 i 2021**

| **Wardiau (unigol neu grŵp)**<br>**Wedi'u trefnu yn ôl % y newid mewn siaradwyr Cymraeg** | **Siaradwyr Cymraeg** | | **Newid: 2011-21** | **%-y newid: 2011-21** |
|---|---|---|---|---|
| | **2011** | **2021** | | |
| Glandŵr | 369 | 497 | +128 | +34.7 |
| Llandeilo Ferwallt | 268 | 339 | +71 | +26.5 |
| Y Mwmbwls, West Cross [1] | 1,254 | 1,540 | +286 | +22.8 |
| Penlle'r-gaer | 422 | 499 | +77 | +18.2 |
| Sgeti | 1,529 | 1,708 | +179 | +11.7 |
| Gorseinon a Phenyrheol [2] | 1,336 | 1,395 | +59 | +4.4 |
| Y Cocyd, Waunarlwydd [1] | 1,260 | 1,307 | +47 | +3.7 |
| Y Castell, St Thomas, Y Glannau [1] | 1,596 | 1,639 | +43 | +2.7 |
| Llansamlet | 1,914 | 1,916 | +2 | +0.1 |
| Uplands | 1,638 | 1,639 | +1 | +0.1 |
| Llwchwr [2] | 1,455 | 1,441 | -14 | -1.0 |
| Mayals | 317 | 312 | -5 | -1.6 |
| Bôn-y-maen | 582 | 568 | -14 | -2.4 |
| Townhill | 478 | 466 | -12 | -2.5 |
| Dyfnant a Chilâ [2] | 799 | 774 | -25 | -3.1 |
| Gŵyr, Pennard [1] | 620 | 597 | -23 | -3.7 |
| Mynydd-bach | 841 | 807 | -34 | -4.0 |
| Fairwood | 287 | 273 | -14 | -4.9 |
| Penderi | 850 | 804 | -46 | -5.4 |
| Cwmbwrla | 517 | 485 | -32 | -6.2 |
| Treforys | 1,931 | 1,709 | -222 | -11.5 |
| Wardiau sirol y gogledd [3] | 4,877 | 4,288 | -589 | -12.1 |
| Tregŵyr | 666 | 569 | -97 | -14.6 |
| Pen-clawdd | 526 | 420 | -106 | -20.2 |
| **Abertawe** | **26,332** | **25,986** | **-346** | **-1.3** |
| Cymru | 562,016 | 538,296 | -23,720 | -4.2 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 a 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. © Hawlfraint y Goron.

**Nodiadau**:

1. Wardiau wedi'u grwpio i alluogi ystadegau cymharol yn dilyn adolygiad ffiniau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn 2022.
2. Mae data wardiau Cyfrifiad 1991 wedi'u grwpio fel y gellir cymharu â'r wardiau newydd.
3. Mae 'wardiau sirol y gogledd' yn cynrychioli swm yr ystadegau ar gyfer wardiau newydd Clydach, Llangyfelach, Pontarddulais a Phontlliw a Thircoed (hen wardiau Clydach, Llangyfelach, Mawr a Phontarddulais).